BWYDO EU BYWYDAU

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pecyn Cymorth i Awdurdodau Lleol

Cyfathrebu ag ysgolion am gymorth ariannol gyda Hanfodion Ysgol, gan gynnwys Cinio Ysgol Am Ddim.

# Cael Help gyda Chostau Ysgol

**Mae hon yn ymgyrch i gyfeirio at y cymorth sydd ar gael i rieni a gofalwyr, i helpu gyda chost Hanfodion Ysgol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd (UPFSM) a gweld os all eich plentyn gael Cinio Ysgol Am Ddim a Grant Hanfodion Ysgol.**

Bydd yr ymgyrch yn annog rhieni sy'n gymwys i gael cymorth gyda chostau ysgol, ond nad ydynt yn eu hawlio ar hyn o bryd, i wneud cais.

Bydd yn amlinellu'n glir i ble mae angen i ysgolion a theuluoedd fynd i gael y cymorth hwn.



# Pam ydym ni'n cynnal yr ymgyrch hon?

**Ar draws Cymru, nid yw llawer o rieni yn manteisio ar hawlio help gyda chostau ysgol. I gydnabod y cynnydd mewn costau byw, rydym yn annog rhieni a gofalwyr i wirio, a gweld os allen nhw gael help i dalu am Hanfodion Ysgol.**

Mae angen i ni fod yn cyfeirio rhieni a gofalwyr at y wybodaeth gywir, a'i gwneud yn hawdd iddynt wneud cais am gymorth gyda Hanfodion Ysgol, gan gynnwys Cinio Ysgol Am Ddim.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â chi i wneud i hyn ddigwydd.

# Pam nawr?

**Mae angen i rieni a gofalwyr wybod beth sy'n newid a beth fydd hynny'n ei olygu i'w plentyn.**

**Ym mis Medi 2022, cyflwynwyd Prydau Ysgol Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd ledled Cymru, gan ddechrau gyda dysgwyr yn y Dosbarth Derbyn. Mae'r polisi'n rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, a fydd yn gweld Cinio Ysgol am Ddim yn cael eu hymestyn i bob dysgwr ysgol gynradd erbyn Medi 2024.**

Gan weithio gyda chi, rydym am sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael y wybodaeth gywir am y cymorth newydd sydd ar gael, i gydnabod y cynnydd mewn costau byw.

# Negeseuon



# Negeseuon allweddol i ysgolion

**I wneud cais, ailymgeisio neu wirio cymhwysedd ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim neu'r Grant Hanfodion Ysgol, dylai ysgolion gyfeirio rhieni at dudalen we eu Hawdurdod Lleol.**

### UPFSM: Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd

Cynigir Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd i bob plentyn erbyn mis Medi 2024 — holwch eich Awdurdod Lleol neu ysgol am eu cynlluniau cyflwyno.

### eFSM: Prydau Ysgol Am Ddim Presennol

Efallai y gwelwch yr ymadrodd eFSM ochr yn ochr â gwybodaeth am UPFSM. **Mae angen i chi wirio a allech gael Cinio Ysgol Am Ddim waeth beth fo'r broses o gyflwyno UPFSM - os yn gymwys, gallech chi a'ch ysgol gael cyllid ychwanegol.**

### Grant Hanfodion Ysgol

Gallai fod help ychwanegol ar gael i'r rhai sy'n cael, neu'n gymwys i gael, Cinio Ysgol am Ddim ar hyn o bryd. Gall Hanfodion Ysgol helpu i dalu am bethau fel gwisg ysgol, esgidiau, deunydd ysgrifennu, cit chwaraeon ac offer arall. O fis Gorffennaf 2023, y lwfans yw £125 fesul dysgwr a hyd at £200 ar gyfer y rhai sy'n mynd i Flwyddyn 7 i gydnabod costau ychwanegol dechrau ysgol uwchradd.

# Cydweithio



# Cydweithio

**Diolch am chwarae eich rhan yn ein helpu i rannu'r negeseuon gyda mwy o rieni a gofalwyr.**

Yn seiliedig ar ganfyddiadau ein grwpiau ffocws, rydym yn gwybod bod rhieni a gofalwyr yn disgwyl clywed y newyddion diweddaraf am Brydau Ysgol am Ddim a chymorth ychwanegol gyda chostau ysgol yn uniongyrchol gan eu hysgol neu awdurdod lleol. Felly mae'n hanfodol bod cysondeb yn y neges gan ysgolion ac ALI er mwyn sicrhau bod rhieni'n cael y wybodaeth gywir am gymorth ariannol gyda Hanfodion Ysgol a chyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim yn eu hardal.

# Banc asedau / adnoddau

**Gallwch ddod o hyd i'n holl asedau parod, deunyddiau y gellir eu lawrlwytho a thempledi mewn un lle, i'ch helpu i rannu ein negeseuon allweddol.**

Cyrchwch bopeth sydd ei angen arnoch yma.

Gellir dod o hyd i dempledi ychwanegol ar gyfer cyfryngau cymdeithasol yn y Pecyn Cymorth i Ysgolion, y gallwch hefyd ei gyrchu yn y banc asedau uchod.

# Enghreifftiau o asedau sydd ar gael:

Cliciwch yma i lawrlwytho'r asedau cyfryngau cymdeithasol













# Deunydd Argraffu

Cliciwch yma i lawrlwytho'r deunyddiau argraffadwy.

## Taflen A5




**Rydych wedi cael taliad gweinyddol y gellir ei ddefnyddio i dalu cost marchnata a chyfathrebu UPFSM.**

Ystyriwch ddefnyddio'r arian a neilltuwyd i argraffu deunyddiau ar gyfer ysgolion yn eich ardal.

# Rhestr wirio

- [ ] **Dilynwch ein sianeli cyfryngau cymdeithasol**
- [ ] **Rhannu negeseuon allweddol ar gyfryngau cymdeithasol a sianeli Awdurdodau Lleol**
- [ ] **Creu a rhannu cynnwys gan ddefnyddio'r hashnod #BwydoEuBywydau**
- [ ] **Lawrlwythwch a rhannwch ddeunyddiau argraffu**

BWYDO EU BYWYDAU

# Cyfrifon i'w dilyn

**Twitter**
@LlC_Addysg / @WG_Education
@dechraucartref / @edubeginsathome
@HwbAddysg_Cymru

**Facebook**
addysgcymru / educationwales
dechraucartref / beginsathome

**YouTube**
Addysg Cymru / Education Wales

**Websites**
gov.wales/education-changing
hwb.gov.wales

**Hashtags to Use**
#BwydoEuBywydau / #FeedTheirFuture


BWYDO EU BYWYDAU
ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
ASTRA
Slazenger.
adidas
THE NORTH
Eclipse
Slazenger
Diolch.